
Diweddariad Cysylltu'r Gwledydd

Gwanwyn 2022

ADRODDIAD:

Dyddiad cyhoeddi: 20 Mai 2022

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg	1
2. Dangosfyrddau	6

1. Trosolwg

Dyma'r diweddariad dros dro cyntaf i'n hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd ym mis Rhagfyr 2021. Mae'n seiliedig ar ddarpariaeth symudol ac argaeledd band eang sefydlog ar draws y DU ym mis Ionawr 2022.

Canfyddiadau allweddol

Mae **nifer y cartrefi a all dderbyn band eang cyfradd gigabit** i fyny i dros 19.3 miliwn o gartrefi (66% o holl gartrefi'r DU), i fyny o 13.7 miliwn (47%) ers ein diweddariad diwethaf. Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Virgin Media O2 fod ei rwydwaith cyfan bellach yn gyfradd gigabit, a hynny sy'n gyfrifol am lawer o'r cynnydd mawr hwn.¹

Mae **darpariaeth ffeibr llawn yn parhau i gynyddu'n gyflym**, i fyny i 33% o 28% yn y pedwar mis rhwng mis Medi 2021 a mis Ionawr 2022, gyda darpariaeth bellach i ychydig o dan 9.6 miliwn o gartrefi.

Mae **band eang cyflym iawn ar draws y DU** yn parhau ar 96%, gyda Chymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon i gyd yn gweld cynnydd o 1 pwynt canrannol mewn darpariaeth cyflym iawn.

Mae nifer y safleoedd na allant gael band eang digonol wrth gymryd di-wifr sefydlog a llinell sefydlog i ystyriaeth, wedi gostwng o 123,000 i 99,500 o safleoedd ers ein hadroddiad ym mis Rhagfyr ac mae'r rhai na allant gael mynediad i fand eang digonol dros linell sefydlog wedi gostwng o 650,000 i 506,000 dros yr un cyfnod.

Mae darpariaeth symudol yn parhau'n sefydlog ac mae'r gweithredwyr yn dechrau cyflwyno darpariaeth mewn ardaloedd newydd trwy'r cynllun **Rhwydwaith Gwledig a Rennir**, y cytunwyd arno gyda Llywodraeth y DU yn 2020. O ganlyniad, disgwylir i'r ddarpariaeth ar draws y wlad gynyddu dros y blynyddoedd i ddod. Mae darpariaeth 5G yn datblygu ac rydym yn cyflwyno rhai ffigurau darpariaeth cynnar yn y tablau isod.

Fel gyda diweddariadau blaenorol rydym yn cyhoeddi dangosfwrdd a [siart ryngweithiol](#) gyda'r adroddiad hwn sy'n cynnwys y data diweddaraf a hanesyddol.

Mae'r data gan y diweddariad hwn wedi cael ei ddefnyddio i ddiweddarau ein [gwefan gwirio darpariaeth hefyd](#).

Canfyddiadau allweddol - Band Eang Sefydlog

Band eang cyfradd gigabit: mae argaeledd band eang a all ddarparu cyflymder Gigabit² i ddefnyddwyr yn parhau i wella'n gyflym, gyda bron 19.3 miliwn o gartrefi'r DU³ (66%) bellach yn

¹ [Virgin Media O2 completes gigabit upgrade in boost for Britain's broadband target -Virgin Media O2](#)

² Mae rhwydweithiau cyfradd Gigabit yn cynnwys rhwydweithiau ffeibr llawn yn ogystal ag unrhyw rwydwaith a all gynnig cyflymder lawrlwytho o 1Gbit yr eiliad o leiaf (fel y fersiwn diweddaraf o dechnoleg rhwydwaith cebl Virgin Media O2 – DOCSIS 3.1)

³ Noder ein bod yn adrodd am eiddo preswyl (cartrefi) o ran darpariaeth ffeibr llawn, a chyflym iawn, ond yn adrodd am eiddo preswyl a masnachol ar gyfer band eang 'digonol'

gallu cyrchu'r gwasanaethau cyflymach hyn, i fyny o 13.7 miliwn o gartrefi (47%) yn ein hadroddiad ym mis Rhagfyr 2021. Mae hyn wedi cael ei symbylu gan gyfuniad o'r gwaith parhaus o gyflwyno band eang ffeibr llawn a rhaglen uwchraddio rhwydwaith Virgin Media O2.

Cyflwyno ffeibr llawn: Mae gan draean (33%) o gartrefi fynediad i wasanaethau ffeibr llawn. Mae darpariaeth ffeibr llawn bellach wedi cyrraedd ychydig yn llai na 9.6 miliwn, i fyny o'r 8.2 miliwn (28%) a adroddwyd yn ein hadroddiad o fis Rhagfyr 2021. Gyrrir hyn yn bennaf gan osodiadau'r gweithredwyr seilwaith ffeibr mawr ond mae wedi'i gefnogi gan nifer o ddarparwyr llai ar draws y DU sy'n gwasanaethu cymunedau a rhanbarthau unigol.

Band eang cyflym iawn (cyflymder lawrlwytho o 30 Mbit yr eiliad o leiaf): Mae cyflwyno band eang cyflym ar draws y DU yn parhau i dyfu er ar gyflymder llai (mae darpariaeth yn parhau ar 96% o gartrefi'r DU). Gallai hyn fod oherwydd yr anhawster cynyddol wrth gyrraedd y 4% terfynol o safleoedd yn ogystal â'r ffocws cynyddol ar gyflwyno cysylltiadau ffeibr llawn a chyfradd gigabit eraill ar draws y DU.

Band eang digonol (10 Mbit yr eilad i lawr ac 1 Mbit yr eiliad i fyny o leiaf): Gall y mwyafrif helaeth o safleoedd yn y DU gyrchu band eang digonol. Nifer y safleoedd (preswyl a masnachol) na allant dderbyn gwasanaeth band eang digonol o linell sefydlog yw tua 506,000 (yn aros ar 2%), ar ôl gostwng o 650,000 ers ein hadroddiad ym mis Rhagfyr.

Mae gwasanaethau band eang hefyd ar gael o rwydweithiau Mynediad Di-wifr Sefydlog (FWA), a ddarperir drwy rwydweithiau symudol neu drwy Ddarparwyr Gwasanaethau Rhyngwrwd Di-wifr (WISP). Os cânt eu rheoli'n dda, gall rhwydweithiau FWA ddarparu gwasanaeth band eang digonol, a gellir eu defnyddio fel technoleg rhwydwaith amgen lle nad oes gan ddefnyddwyr fynediad at gysylltiad band eang digonol ar rwydwaith sefydlog. Rydym yn parhau i gywain data gan WISP ac yn seiliedig ar y ddarpariaeth a nodwyd gan y darparwyr hyn, rydym bellach yn amcangyfrif y gall 7% o safleoedd gael gwasanaeth band eang digonol gan WISP (yr un fath ag yn ein hadroddiad ym mis Rhagfyr 2021). Mae gwasanaeth FWA o rwydweithiau symudol a all ddarparu band eang digonol ar gael i bron i 94% o safleoedd.

Yn seiliedig ar yr amcangyfrifon o ddarpariaeth gan ddarparwyr FWA, amcangyfrifwn fod tua 99,500 o safleoedd o hyd nad oes ganddynt fynediad at wasanaeth band eang digonol o rwydwaith sefydlog neu rwydwaith FWA. Mae hyn wedi gostwng o'n hamcangyfrif o 123,000 yn ein hadroddiad ym mis Rhagfyr 2021.

O'r rhain, ni ddisgwylir darpariaeth i 78,600 o safleoedd o ganlyniad i gyflwyno gynlluniau a ariennir yn gyhoeddus o fewn y deuddeg mis nesaf. Efallai y bydd y rhain yn gymwys ar gyfer y cynnyrch USO band eang yn amodol ar wiriadau a chadarnhad pellach gan y Darparwyr Gwasanaeth Cyffredinol (BT a KCOM).

Mae'r ffigurau uchod yn dangos argaeledd gwasanaethau band eang ar draws y DU; byddwn yn adrodd ar y defnydd o wasanaethau band eang yn fanylach yn ein hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd blyneddol ym mis Rhagfyr 2022.

Canfyddiadau allweddol - Symudol

Rydym yn mesur darpariaeth symudol mewn ffordd sy'n adlewyrchu profiad tebygol pobl wrth ddefnyddio eu ffonau symudol⁴ Ni fu cynnydd sylweddol mewn darpariaeth ers ein hadroddiad diwethaf, ond rydym yn disgwyl y bydd y Rhwydwaith Gwledig a Rennir (SRN), y cytunwyd arno rhwng Llywodraeth y DU a'r diwydiant yn 2020, yn parhau i symbylu gwelliannau mewn darpariaeth dros y blynyddoedd nesaf.

4G: Nid yw darpariaeth ar ffurf rhwydweithiau symudol 4G ar draws y DU wedi gweld newidiadau sylweddol dros y cyfnodau adrodd diwethaf. Rhagfynegir bod tua 92% o fàs tir y DU yn cael darpariaeth 4G da gan o leiaf un gweithredwr, ac mae'r màs tir hwn yn cynnwys bron yr holl anheddau yn y DU. Disgwylir y bydd hyn yn codi i 95% erbyn diwedd 2025 o ganlyniad i'r SRN. Mae'r ddarpariaeth yn Yr Alban a Chymru'n sylweddol is ar hyn o bryd. Dylid nodi bod gweithredwyr rhwydweithiau symudol unigol wedi ymrwymo i ymestyn darpariaeth i rhwng 85% ac 88% yng Nghymru erbyn 2027⁵ o dan y SRN, ac i rhwng 82% ac 85% yn Yr Alban.

Mannau di-gyswllt 4G: Mae gan y DU fannau di-gyswllt daearyddol ac ar ffyrdd (hynny yw, ardaloedd lle nad oes gwasanaethau 4G da ar gael gan unrhyw weithredwr symudol). Mae manau di-gyswllt daearyddol wedi aros yr un fath ag yn ein hadroddiad ym mis Rhagfyr 2021, sef 8%. Mae darpariaeth ar y ffyrdd yn parhau yr un fath i raddau helaeth - amcangyfrifir mai dim ond 4% o'r holl ffyrdd sy'n fan di-gyswllt o fewn cerbyd. Mae hyn yn amrywio'n sylweddol ar draws gwledydd unigol, yn enwedig yng Nghymru a'r Alban.

Darpariaeth galwadau a negeseuon testun: Fel gyda 4G, mae'r ddarpariaeth a ragfynegir yn parhau heb ei newid i raddau helaeth ar draws y cyfnodau adrodd blaenorol. Gan ddibynnu ar y gweithredwr, rhagfynegir darpariaeth i 85%-92% o fàs tir y DU ar gyfer galwadau a gwasanaethau testun, a rhwng 99%-c100% o safleoedd (awyr agored), gan ddibynnu unwaith eto ar y gweithredwr.

Mannau di-gyswllt ar gyfer galwadau/negeseuon testun: Mae ardaloedd lle na all pobl wneud galwad neu anfon neges destun gan unrhyw weithredwr (mannau di-gyswllt) yr un mor ddigymffwrdd, amcangyfrifir bod tua 4% o ddaearyddiaeth y DU, a thua 2% o ffyrdd y DU yn fannau di-gyswllt ar gyfer galwadau a negeseuon testun a wneir neu a dderbynnir mewn cerbyd. Yn yr un modd â 4G, mae amrywiadau sylweddol ar gyfer y gwledydd unigol; er enghraifft, mae manau di-gyswllt daearyddol ar draws Yr Alban yn parhau'n uwch na gweddill y DU ar tuag 11%.

5G: Adroddwyd ar ddarpariaeth 5G gan 'Pob MNO' ac o 'O leiaf un MNO' am y tro cyntaf ym mis Rhagfyr 2021. Rydym yn parhau i adrodd ar yr un sail yma, gyda lefelau darpariaeth yn amrywio o hyder uchel i uchel iawn. Mae darpariaeth gan 'O leiaf un MNO' bellach yn amrywio o 47% (hyder uchel iawn) i 62% (hyder uchel) o safleoedd awyr agored, i fyny o 42% a 57% yn y drefn honno o adroddiad mis Rhagfyr.

⁴ Gellir dod o hyd i fanylion ar ddiffiniadau yn atodiad methodoleg cysylltiedig adroddiad Rhagfyr 2021: [Methodoleg Cysylltu'r Gwledydd Rhagfyr 2021](#)

⁵ Mae hyn wedi cael ei ddiwygio ar gyfer 2026 ers ein diweddariad diwethaf

Cynlluniau ar draws y DU a'r Gwledydd i gefnogi rhwydweithiau band eang

Mae Ofcom, fel rhan o'i adolygiad o fynediad, wedi rhoi rheolau ar waith i symbylu buddsoddiad, ac mae hyn bellach yn dwyn ffrwyth. Mae'r rheolau hyn wedi'u pennu dros gyfnod o 5 mlynedd.

DU: Ar 22 Chwefror 2022, cyhoeddwyd 'Gigabit Broadband in the UK: Government targets and policy'⁶. Cadarnhaodd hyn ymrwymiad llywodraeth y DU i gyflwyno band eang cyfradd Gigabit i 85% o aelwydydd y DU erbyn 2025 a 99% erbyn 2030. Mae targedau llywodraeth y DU ar gyfer gwasanaethau symudol yn cynnwys darpariaeth ddaearyddol 95% ar gyfer 4G ac i'r rhan fwyaf o'r boblogaeth gael mynediad at signal 5G erbyn 2030.

Ym mis Chwefror, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei hymateb i'r ymgynghoriad 'Gwella Band Eang ar gyfer Safleoedd Anodd iawn eu Cyrraedd.'⁷ Nodwyd ynddo, er bod llywodraeth y DU yn gwneud cynnydd sylweddol wrth ddarparu gwell cysylltedd i'r wlad, iddynt wybod bod y gost o ddarparu band eang cyfradd gigabit yn cynyddu'n esbonyddol mewn rhai ardaloedd. Mae angen ystyried opsiynau amgen i gysylltu rhai safleoedd a ystyrir yn 'Anodd iawn eu Cyrraedd', yr amcangyfrifir yn y lle cyntaf eu bod yn llai na 100,000. Nod Llywodraeth y DU yw cyflwyno cynigion polisi yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

Yr Alban: Mae contract adeiladu rhaglen Reaching 100% (R100) Llywodraeth Yr Alban yn mynd rhagddo'n dda. gyda chysylltiadau bellach yn weithredol ym mhob ardal gontract ledled yr Alban, gan gynnwys Lot y Gogledd. Bydd llawer o gartrefi a busnesau yr oeddent i fod i dderbyn band eang cyflym iawn drwy'r rhaglen R100 bellach yn cael band eang cyfradd gigabit cyflymach fyth yn lle hynny.⁸ Darperir cymorth ychwanegol drwy Gynllun Talebau Band Eang Yr Alban.⁹ Mewn rhai achosion, gall cyfeiriadau gwledig fod yn gymwys i gyfuno cyllid Llywodraeth Yr Alban o hyd at £5,000 gyda chyllid gan Gynllun Talebau Band Eang Gigabit (GBVS) Llywodraeth y DU sy'n darparu £1,500 ar gyfer cartrefi gwledig a £3,500 ar gyfer busnesau gwledig.

Mae Llywodraeth Yr Alban hefyd yn parhau i gefnogi'r gwaith o gyflwyno rhwydweithiau drwy'r Siarter Ffeibr Llawn gyda darparwyr cyfathrebu. Ym mis Ebrill 2022, addawodd pum darparwr pellach gymorth i uchafu'r ddarpariaeth yn Yr Alban. Yn gyfnewid am hyn, mae Llywodraeth Yr Alban yn cynnig gostyngiad 100% ar ardrethi annomestig ar gyfer ffeibr sydd newydd ei osod tan 2034.¹⁰

Yn ogystal, mae Rhaglen Mewnlenni 4G Llywodraeth Yr Alban yn parhau gyda 27 o fastiau'n fyw ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Ochr yn ochr â'r Rhwydwaith Gwledig a Rennir, bydd hyn yn helpu i daclo manau di-gyswllt symudol 4G ar draws Yr Alban.¹¹

Mae'r broses cyflwyno masnachol yn parhau ar draws Yr Alban. Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Virgin Media O2 iddynt uwchraddio eu rhwydwaith cyfan o 1.2 miliwn o gartrefi yn Yr Alban i fand

⁶ [Gigabit Broadband in the UK: Government targets and policy](#)

⁷ <https://www.gov.uk/government/consultations/improving-broadband-for-very-hard-to-reach-premises/outcome/improving-broadband-for-very-hard-to-reach-premises-government-response>

⁸ <https://www.scotlandsuperfast.com/the-story-so-far/news-and-case-studies/all/ensuring-access-to-superfast-broadband/>

⁹ <https://www.scotlandsuperfast.com/the-r100-programme/scottish-broadband-voucher-scheme/>

¹⁰ <https://www.gov.scot/news/boosting-broadband-access/>

¹¹ <https://www.gov.scot/publications/scottish-4g-infill-programme-progress-update/>

eang cyfradd gigabit.¹² Mae Openreach yn parhau i ehangu ei rwydwaith ffeibr llawn yn Yr Alban, gan gyhoeddi wyth lleoliad pellach yn Yr Alban fel rhan o fuddsoddiad gwerth £16.2 miliwn.¹³ Bu buddsoddiad 'alt-net' pellach hefyd, gan gynnwys Band Eang Lothian yn derbyn £20m o gyllid gan Fanc Buddsoddi Cenedlaethol yr Alban i helpu i gysylltu mwy na 70,000 o safleoedd newydd ar draws Yr Alban dros y pedair blynedd nesaf.¹⁴

Cymru: Mae dros 600 o ysbytai, gorsafoedd heddlu, llyfrgelloedd ac adeiladau cyhoeddus eraill yng Nghymru wedi'u cysylltu â band eang ffeibr llawn o dan ymgyrch Llywodraeth y DU i lefelu gwasanaethau cyhoeddus i fyny a chyflymu'r broses gyflwyno. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu diweddariad am gynnydd eu contract Cyflymu Cymru Cam 2 gwerth £52.5 miliwn gyda BT, sy'n cadarnhau bod 25,855 o safleoedd (i fyny o 24,515 yn Ch3) bellach â mynediad i ffeibr i'r safle. Mae Cronfa Band Eang Leol Llywodraeth Cymru wedi darparu £10 miliwn i gefnogi awdurdodau lleol a mentrau cymdeithasol i gyflwyno prosiectau band eang lleol. Mae cynllun Allwedd Band Eang Cymru'n¹⁵ darparu grantiau i ariannu (neu ariannu'n rhannol) costau gosod cysylltiadau band eang newydd ar gyfer cartrefi a busnesau yng Nghymru.

Gogledd Iwerddon: Mae 8,500 o safleoedd pellach wedi'u hychwanegu at gynllun ymyriad band eang Prosiect Stratum yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r safleoedd ychwanegol yn cynnwys 2,500 o safleoedd anoddach eu cyrraedd a oedd y tu allan i gwmpas y contract gwreiddiol, yn ogystal â 6,000 o safleoedd pellach.

Dyfarnwyd y contract gwerth £165 miliwn ar gyfer cyflwyno Prosiect Stratum i Fibrus Networks Ltd ym mis Tachwedd 2020. Erbyn diwedd 2021, roedd Fibrus wedi darparu seilwaith newydd i fwy na 22,000 o safleoedd.

Bydd cyflwyniad y rhwydwaith ffeibr llawn newydd sydd i cyrraedd pob un o'r 85,000 o safleoedd, gan gynnwys yr 8,500 o safleoedd ychwanegol sy'n cael eu dwyn i gwmpas y prosiect Stratum, yn parhau ar draws pedwar chwarter estynedig o adeiladu rhwydweithiau, a disgwylir i Fibrus Networks gwblhau'r gweithrediad llawn erbyn mis Mawrth 2025.

Cywain ac adrodd data

Rydym yn parhau i ehangu nifer y gweithredwyr rydym yn cywain data darpariaeth ganddynt er mwyn gwella cywirdeb y data a gyhoeddwn. Rydym hefyd yn parhau i gywain data darpariaeth bob 4 mis a gwybodaeth am ddefnydd unwaith y flwyddyn.

Rydym wrthi'n cywain ac yn dadansoddi gwybodaeth am adeiladu rhwydweithiau gan Ddarparwyr Cyfathrebu y DU a byddwn yn cyhoeddi canlyniadau'r gweithgaredd hwn maes o law.

¹² <https://news.virginmediao2.co.uk/virgin-media-o2-connects-entire-network-in-scotland-to-next-generation-gigabit-broadband/>

¹³ [New £16m broadband boost for Scotland \(openreach.com\)](https://www.openreach.com/news/new-16m-broadband-boost-for-scotland)

¹⁴ <https://www.thebank.scot/portfolio/lothian-broadband-group/>

¹⁵ [Allwedd Band Eang Cymru | LLYW.CYMRU](https://www.llyw.cymru/allwedd-band-eang-cymru)

2. Dangosfyrddau

Band eang sefydlog

Mynediad i ffeibr llawn	Mai 2021	Medi 2021	Ionawr 2022
DU	24%	28%	33%
Lloegr	23%	27%	31%
Gogledd Iwerddon	67%	71%	79%
Yr Alban	23%	27%	32%
Cymru	24%	27%	32%

Mynediad i wasanaethau cyfradd gigabit	Mai 2021	Medi 2021	Ionawr 2022
DU	40%	47%	66%
Lloegr	38%	46%	67%
Gogledd Iwerddon	73%	76%	82%
Yr Alban	47%	51%	60%
Cymru	30%	36%	46%

Mynediad at wasanaethau cyflym iawn	Mai 2021	Medi 2021	Ionawr 2022
DU	96%	96%	96%
Lloegr	96%	96%	97%
Gogledd Iwerddon	90%	91%	92%
Yr Alban	94%	94%	94%
Cymru	94%	94%	95%

Mynediad i wasanaethau 10 Mbit yr eiliad o leiaf	Mai 2021	Medi 2021	Ionawr 2022
DU	98%	98%	99%
Lloegr	99%	99%	99%
Gogledd Iwerddon	95%	95%	96%
Yr Alban	97%	97%	97%
Cymru	97%	97%	98%

Mynediad Di-wifr Sefydlog

Ers ein hadroddiad diwethaf rydym wedi parhau i gywain data ar Ddarparwyr Gwasanaethau Rhyngwrwd Di-wifr (WISP) sy'n darparu gwasanaeth band eang Mynediad Di-wifr Sefydlog. Mae'r canlynol yn dangos safleoedd lle gellir cael band eang digonol drwy FWA.

Di-wifr Sefydlog	Mai 2021	Medi 2021	Ionawr 2022
Gweithredwyr Rhwydweithiau Symudol y DU (MNO)	93%	94%	94%
Darparwyr Gwasanaethau Rhyngwrwd Di-wifr y DU (WISP)	6%	7%	7%

Cymhwysedd USO

Nifer y cartrefi a busnesau na allant gyrchu gwasanaeth band eang digonol, hynny yw cyflymder lawrlwytho o 10 Mbit yr eiliad o leiaf a chyflymder uwchlwytho o 1 Mbit yr eiliad o leiaf.

Heb fedru derbyn cyflymder lawrlwytho o 10 Mbit yr eiliad o leiaf a chyflymder uwchlwytho o 1 Mbit yr eiliad o leiaf (o bosib yn gymwys am USO)	Mai 2021	Medi 2021	Ionawr 2022
DU	0.4%	0.4%	0.3%
Lloegr	0.3%	0.2%	0.2%
Gogledd Iwerddon	2%	2%	2%
Yr Alban	1%	1%	1%
Cymru	1%	1%	0.8%

Nodyn 1: Rydym yn ystyried bod gan eiddo "ddarpariaeth ffeibr llawn" dim ond os: 1. yw ffeibr wedi'i osod yn agos iawn i'r eiddo, gan olygu bod angen cysylltiad ffeibr penodedig yn unig i'r eiddo i ddarparu cysylltedd ffeibr llawn (o un pen i'r llall), a 2. byddai disgwyl i'r defnyddiwr terfynol dalu dim ond tâl cysylltiad cyhoeddusig y cytunwyd arno ymlaen llaw petai un yn cael ei godi.

Nodyn 2: Mae'n bosib bod hyn yn eithrio'r gwasanaethau band eang sydd ar gael gan rai darparwyr llai eu maint.

Nodyn 3: Mae'r ffigurau cymhwysra USO posib ar gyfer pob math o eiddo (preswyl a masnachol). Mae ffigurau ar gyfer cyflymderau eraill yn cyfeirio at eiddo preswyl yn unig.

Darpariaeth 5G

Safleoedd (awyr agored) sy'n cael darpariaeth gan o leiaf un gweithredwr	Ionawr 2022
DU	47-62%
Lloegr	49-65%
Gogledd Iwerddon	24-34%
Yr Alban	40-54%
Cymru	27-38%

Safleoedd (awyr agored) sy'n cael darpariaeth gan yr holl weithredwyr	Ionawr 2022
DU	4-12%
Lloegr	5-13%
Gogledd Iwerddon	2-6%
Yr Alban	2-8%
Cymru	2-5%

Nodyn 4: Y trothwyon ar gyfer Gwasanaeth 5G yw -110 dBm lle mae gennym hyder uchel yn y ddarpariaeth a – 100 dBm lle mae gennym hyder uchel iawn yn y ddarpariaeth

Darpariaeth 4G

Safleoedd (awyr agored) – ystod y ddarpariaeth ar draws y gweithredwyr symudol	Mai 2021	Medi 2021	Ionawr 2022
DU	99%	99-c.100%	98-c.100%
Lloegr	99-c.100%	99-c.100%	99-c.100%
Gogledd Iwerddon	96-99%	97%-99%	97%-99%
Yr Alban	97-99%	97-99%	97-99%
Cymru	96-99%	96-99%	95-99%

Ardal ddaearyddol - ystod y ddarpariaeth ar draws y gweithredwyr symudol	Mai 2021	Medi 2021	Ionawr 2022
DU	79-85%	79-86%	79-86%
Lloegr	92-93%	92-94%	92-94%
Gogledd Iwerddon	86-92%	87-92%	87-92%
Yr Alban	57-72%	57-73%	57-74%
Cymru	72-83%	72-84%	72-85%

Ardal ddaearyddol nad yw'n derbyn darpariaeth gan unrhyw weithredwr (mannau di-gyswllt)	Mai 2021	Medi 2021	Ionawr 2022
DU	8%	8%	8%
Lloegr	3%	2%	2%
Gogledd Iwerddon	3%	3%	3%
Yr Alban	19%	18%	18%
Cymru	10%	10%	10%

Darpariaeth i'r holl ffyrdd (mewn cerbyd) - ystod y ddarpariaeth ar draws y gweithredwyr symudol	Mai 2021	Medi 2021	Ionawr 2022
DU	78-83%	78-83%	78-83%
Lloegr	83-88%	83-88%	83-88%
Gogledd Iwerddon	62-79%	63-79%	65-79%
Yr Alban	64-75%	64-77%	64-78%
Cymru	70-78%	70-79%	70-79%

Yr holl ffyrdd (mewn cerbyd) nad ydynt yn derbyn darpariaeth gan unrhyw weithredwr (mannau di-gyswllt)	Mai 2021	Medi 2021	Ionawr 2022 (Nodyn 6)
DU	4%	4%	4%
Lloegr	2%	2%	2%
Gogledd Iwerddon	7%	6%	7%
Yr Alban	8%	7%	7%
Cymru	10%	9%	9%

Nodyn 5: Trothwyon ar gyfer gwasanaethau 4G: 4G (-105 dBm). Mae hyn yn cyfeirio at bron pob cysylltiad a all ddarparu cyflymder cysylltiad o 2Mbit yr eiliad o leiaf a galwadau llais dibynadwy.

Nodyn 6: Ar gyfer Gogledd Iwerddon, ychydig dros 0.1% yw'r gwahaniaeth rhwng Medi 2021 ac Ionawr 2022, ond oherwydd talgrynnu adroddir ei fod yn uwch. Gall yr amgylchiadau hyn, gyda darpariaeth a adroddir yn amrywio +/- 1% godi o bryd i'w gilydd o ganlyniad i newidiadau bach yn yr wybodaeth sylfaenol a ddefnyddiwn i gyfrifo'r ddarpariaeth. Mae'r holl ddarpariaeth a adroddir yn seiliedig ar ragfynegiadau, y mae'r gweithredwyr yn parhau i'w diweddarau. Mae [Methodoleg Cysylltu'r Gwledydd 2021](#) yn darparu mwy o fanylion am sut y cyfrifir darpariaeth symudol.

Darpariaeth galwadau a negeseuon testun

Safleoedd (awyr agored) - ystod y ddarpariaeth ar draws y gweithredwyr symudol	Mai 2021	Medi 2021	Ionawr 2022
DU	99-c.100%	99-c.100%	99-c.100%
Lloegr	c.100%	c.100%	c.100%
Gogledd Iwerddon	98-c.100%	98-c.100%	98-c.100%
Yr Alban	99-c.100%	99-c.100%	99-c.100%
Cymru	99%	99%	99%

Ardal ddaearyddol - ystod y ddarpariaeth ar draws y gweithredwyr symudol	Mai 2021	Medi 2021	Ionawr 2022
DU	85-92%	85-92%	85-92%
Lloegr	94-98%	95-98%	95-98%
Gogledd Iwerddon	89-98%	89-98%	89-98%
Yr Alban	68-81%	68-82%	68-82%
Cymru	85-91%	86-91%	86-91%

Ardal ddaearyddol nad yw'n derbyn darpariaeth gan unrhyw weithredwr (mannau di-gyswllt)	Mai 2021	Medi 2021	Ionawr 2022
DU	5%	4%	4%
Lloegr	1%	1%	1%
Gogledd Iwerddon	1%	1%	1%
Yr Alban	11%	11%	11%
Cymru	5%	5%	5%

Darpariaeth i'r holl ffyrdd (mewn cerbyd) - ystod y ddarpariaeth ar draws y gweithredwyr symudol	Mai 2021	Medi 2021	Ionawr 2022
DU	86-94%	86-94%	86-95%
Lloegr	90-98%	90-98%	90-98%
Gogledd Iwerddon	70-93%	71-93%	72-93%
Yr Alban	77-88%	77-88%	77-88%
Cymru	82-88%	82-88%	82-88%

Yr holl ffyrdd (mewn cerbyd) nad ydynt yn derbyn darpariaeth gan unrhyw weithredwr (mannau di-gyswllt)	Mai 2021	Medi 2021	Ionawr 2022
DU	2%	2%	2%
Lloegr	1%	1%	1%
Gogledd Iwerddon	3%	3%	3%
Yr Alban	4%	4%	3%
Cymru	5%	5%	5%

Nodyn 7: Y trothwyon ar gyfer llais a negeseuon testun yw: 2G (-81 dBm), 3G (-100 dBm), 4G (-105 dBm).